

No.

CABINET

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd N. Moore (Cadeirydd); Cynghorydd L. Burnett (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr P.G. King, K.F. McCaffer, M.R. Wilkinson and E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson.

C764 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

Dymunodd yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet Nadolig llawen i drigolion Bro Morgannwg, a blwyddyn newydd heddychlon a diogel a diolchon nhw i holl staff Cyngor Bro Morgannwg am y gwaith rhagorol a wnaed eleni a thrwy gydol y pandemig.

C765 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd B.T. Gray

C766 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr, 2021 fel cofnod cywir.

C767 PROSIECT SERO – CYFLAWNI'R CYNLLUN HER NEWID HINSAWDD (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2021.

Gwrth drafod y cyfeiriad soniodd yr Arweinydd am y cynnydd sy'n cael ei wneud i ddatblygu dull y Cyngor o gyflawni'r Cynllun Her Newid Hinsawdd, Prosiect Sero, gan gynnwys llywodraethu a chyflawni.

No.

Roedd y Pwyllgor wedi argymhell bod y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu perthnasol yn derbyn adroddiadau pellach ar Brosiect Sero bob pedwar mis.

Roedd wedi hynny

PENDERFYNWYD – BOD argymhelliad y Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio ar Brosiect Sero yn cael eu darparu i'r Cabinet deirgwaith y flwyddyn, gyda'r adroddiadau ac wedyn eu cyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol i'w hystyried un cael ei nodi a'i gytuno.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C768 STRATEGAETH DDRAFFT HYRWYDDO IAITH GYMRAEG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd, 2021.

Soniodd yr Arweinydd wrth drafod y cyfeiriad am y cyflwyniad a roddwyd gan y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes, yn nodi Safonau'r Gymraeg (Safonau 145 a 146) a'r pwyntiau yr oedd angen i Awdurdodau Lleol fynd i'r afael â nhw. Roedd yn falch o nodi bod Bro Morgannwg wedi cynnal nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd a bod ffigurau disgyblion wedi cynyddu gan 11%.

Roedd wedi hynny

PENDERFYNWYD – BOD argymhellion y Pwyllgor a'r cynnydd a wnaed hyd yma yn cael eu nodi a bod diweddariadau pellach yn cael eu derbyn wrth symud ymlaen.

Rhesymau dros benderfyniadau

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C769 ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU GWIRFODDOL MORGANNWG 2020/21 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan Gyd-bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 30 Tachwedd, 2021.

Cyfeiriodd yr Arweinydd wrth drafod y cyfeiriad at y drafodaeth ynghylch pa mor barod oedd y cyhoedd i gefnogi eu cymdogion a'u cymunedau, gan nodi gwaith grŵp Arwyr y Fro a'r gwaith rhagorol yr oeddent wedi'i wneud o ganlyniad i'r pandemig.

Cyfeiriodd hefyd at y noson wobrwyo a oedd wedi ei chynnal gan Wasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) a'r Cyngor ac a oedd yn cydnabod gwaith

No.

gwirfoddolwyr ym Mro Morgannwg ac a fyddai'n bosibl fel rhan o wobrau'r staff i gydnabod hefyd y rhai a wnaeth waith gwirfoddol yn y gobaith y byddai hyn yn annog mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd gwirfoddoli. Ychwanegwyd hyn wedyn fel argymhelliad i'r Cabinet, a bod yr argymhelliad i sefydlu noson wobrwyo gwirfoddolwyr er mwyn cydnabod yn ffurfiol ac amlygu gwaith gwirfoddol ym Mro Morgannwg yn cael ei roi i'r Cabinet i'w ystyried. Dywedodd yr Arweinydd fod hynny'n rhywbeth y gellid ei ystyried yn y dyfodol ar ôl i effeithiau'r pandemig ddod i ben yn 2022.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd hefyd at y grwpiau anffurfiol niferus a oedd wedi dod i fodolaeth o ganlyniad i'r pandemig, e.e., Help Llaw ym Mhenarth. Roedd y grwpiau anffurfiol hynny wedi ffurfio perthynas a oedd wedi parhau mewn cymunedau ac wedi darparu mwy o gydlyniant cymunedol. Roedd rhai grwpiau wedi archwilio cael strwythur mwy ffurfiol ac wedi cael anawsterau ac yn teimlo y gallai GGM ei archwilio yn y dyfodol.

Roedd wedi hynny

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod yn cael eu nodi a'r posibilrwydd o seremoni wobrwyo yn cael ei thrafod gyda GGM i'w chynnal yn 2022, neu pryd bynnag y bo modd gan ystyried effeithiau'r pandemig.
- (2) BYDDAI'R Cabinet yn gweithio gyda GGM i archwilio pam yr oedd grwpiau wedi cael anawsterau wrth ffurfioli trefniadau.
- (3) BOD yr holl wirfoddolwyr a barhaodd i helpu eraill ledled y Sir a'r tu hwnt yn ystod y pandemig, boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol, i gefnogi eraill lle y gallent, yn derbyn diolch a llongyfarchiadau.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1-3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

C770 PANEL RHIANTA CORFFORAETHOL: 13 MEDI, 2021–

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021 fel y'u cynhwyswyd yn yr agenda.

Cyfeiriodd y Cynghorydd McCaffer at y manylion ynghylch Maethu Cymru a Phlant sy'n Derbyn Gofal oedd yn cael eu hystyried gan y Panel yn y cyfarfod. Roedd mater Maethu Cymru yn bwysig gan fod prinder gofawyr maeth ar gael ac roedd cael pwynt cyswllt canolog yn hanfodol, gyda mwy yn cael eu recriwtio o ganlyniad i'r ymgyrch.

PENDERFYNWYD - BOD cofnodion cyfarfod y Panel Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021 yn cael eu nodi.

Rhesymau dros benderfyniadau

O nodi'r cofnodion

C771 YMATAB DRAFFT I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR REOLIADAU CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL (CYFFREDINOL) (CYMRU) 2022 (AG/BA) (CRAFFU - PERFFORMIAD CORFFORAETHOL AC ADNODDAU) –

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad uchod gan Lywodraeth Cymru.

Creodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 y fframwaith ar gyfer mecanwaith cyson ar gyfer cydweithredu rhanbarthol rhwng llywodraeth leol, sef Cydbwyllgorau Corfforaethol (CbCau). Roedd y Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu CbCau drwy Reoliadau.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymgynghori ar gyflwyno rheoliadau a chanllawiau i gyd-fynd â chyflwyno CbCau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth gan y Cabinet i ymateb y Cyngor (Atodiad A) i'r ymgynghoriad diweddaraf ynghylch y Rheoliadau sy'n cefnogi sefydlu'r pedwar CbC.

Byddai ymgynghoriad pellach yng Ngwanwyn 2022 yn cwmpasu unrhyw ddarpariaethau fyddai'n weddill ac y gallai fod eu hangen ar CbCau ond nad oedd yn debygol o fod eu hangen ar yr adeg y byddant yn dechrau cyflawni eu swyddogaethau. Byddai adroddiadau pellach i'r Cabinet yn dilyn maes o law.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Gwestiwn 9 Atodiad A, cymeradwyodd yr ateb ynghylch TAW neu Drethiant Cwmnïau a gobeithiai y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw ar frys. Cyfeiriodd hefyd at Graffu ar y CbCau, pwysleisiodd bwysigrwydd craffu a chytunodd â'r ymateb y dylai'r CBC ddarparu cyllid i ddarparu'r cymorth craffu ar gyfer y CBC. Awgrymwyd y gallai fod eitem sefydlog ar agendâu'r Pwyllgorau Craffu er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad a'r ymateb drafft i'r ymgynghoriad yn cael eu a'u cytuno a'u cymeradwyo i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- (2) BOD y weithdrefn frys a nodir yn adran 14:14 o Gyfansoddiad y Cyngor yn cael ei harfer mewn perthynas â Phenderfyniad (1).

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) I alluogi'r Cyngor i ymateb i'r Ymgynghoriad ar Gydbwyllgorau Corfforaethol.
- (2) I alluogi'r ymateb i gael ei gyflwyno erbyn 22 Rhagfyr, 2021.

C772 ARGYFWNG NATUR - CYFLAWNI CYNLLUN GWEITHREDU'R CYNGOR (DA/AA) (CRAFFU - AMGYLCHEDD A RHEOLI) –

Roedd yr adroddiad yn manylu ar y trefniadau llywodraethu arfaethedig ar gyfer ymdrin â'r Argyfwng Natur datganedig.

Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu hynny, sefydlwyd tîm Gweithredu Natur Lleol i fwrw ymlaen â'r camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r argyfwng a bwydo i mewn i'r Cynllun Her Newid yn yr Hinsawdd ac roedd cynllun prosiect cychwynnol wedi'i ddatblygu.

Roedd y tîm o uwch swyddogion wedi cwrdd ac ystyried yr heriau a'r camau cysylltiedig gofynnol a byddent yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Prosiect Sero, dan gadeiryddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr.

Cytunwyd y byddai'r Blaengynllun Bioamrywiaeth y cytunwyd arno gan y Cabinet ym mis Medi 2019, ynghyd â'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur cysylltiedig, yn sail i ymateb y Cyngor i'r argyfwng ac y byddai'n cefnogi ac yn gwella gwaith y Bartneriaeth Natur Leol wrth weithio gyda'r gymuned leol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y byddai'r tîm Gweithredu Natur Lleol yn bwydo i mewn i'r Bwrdd Prosiect Sero gan fod pobl wedi dweud eu bod am weld natur yn cael ei thrafod yn fwy penodol o fewn Prosiect Sero.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD y trefniadau llywodraethu i ddelio â'r Argyfwng Natur yn cael eu cymeradwyo.
- (2) BOD defnyddio'r Blaengynllun Bioamrywiaeth fel sail i ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Natur yn cael ei gymeradwyo.
- (3) BOD y ffordd ymlaen ar gyfer ymateb i'r Argyfwng Natur fel y'i cynigiwyd gan Fwrdd y Prosiect fel y'i disgrifir yng nghorff yr adroddiad yn cael ei chymeradwyo.
- (4) BOD rôl Bwrdd y Prosiect yn sicrhau aliniad â'r gweithgareddau a gynhelir yn rhan o'r ymateb i Brosiect Sero yn cael ei nodi.

No.

(5) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried.

(6) BOD yr adroddiad i'w ddsbarthu i bob Aelod etholedig a holl Glercod Cynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth iddynt.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) I alluogi'r Cabinet i ystyried a chymeradwyo'r trefniadau llywodraethu.

(2) I alluogi'r Cabinet i ystyried a chymeradwyo'r Blaengynllun Bioamrywiaeth yn sail i'r ymateb.

(3) I alluogi'r Cabinet i ystyried a chymeradwyo'r ffordd ymlaen a gynigiwyd gan y Bwrdd.

(4) I gadarnhau a sicrhau y byddai'r gwaith ar newid yn yr hinsawdd a'r argyfwng natur wedi'i alinio.

(5) I alluogi Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i ystyried sut mae Prosiect Sero yn cael ei ddatblygu.

(6) I roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl Aelodau etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned am y trefniadau i ymateb i'r Argyfwng Natur datganedig.

C773 STRATEGAETH DRAFFT CYFRANOGIAD TENANTIAID A PHRESWYLWYR PRYDLES 2021-2026 (WTA) (CRAFFU - CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL) –

Nododd Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid Newydd 2021-2024 Weledigaeth y Cyngor ar gyfer cynyddu Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid.

Roedd y strategaeth yn canolbwyntio ar dair thema allweddol ac un thema gyffredinol sef:

- cynyddu Cyfranogiad;
- buddsoddi mewn staff ac adnoddau ariannol i gynorthwyo cyfranogiad;
- cefnogi Tenantiaid a Lesddeiliaid i'w galluogi i ddylanwadu ar benderfyniadau; a
- sicrhau y gwrandewir ar farn Tenantiaid a Lesddeiliaid, a gwerthfawrogi a gweithredu ar y farn honno.

Byddai'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu cynhwysfawr y Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid yn cael ei fonitro gan weithgor trawsadrannol a gweithgor allanol dan arweiniad Tenantiaid.

Dywedodd yr Aelod Cabinet wrth gyfeirio at yr adroddiad y byddai'r Strategaeth, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a barn y Pwyllgor Craffu ac ymgynghoriad

No.

cyhoeddus ehangach yn cael eu hystyried gan y Cabinet yn y flwyddyn newydd cyn cytuno ar y Strategaeth derfynol.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD manylion Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid Newydd 2021 – 2024 (Atodiad A i'r adroddiad) a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B i'r adroddiad) ar gyfer ymgynghoriad pellach yn cael eu nodi a'u cymeradwyo.

(2) BOD, yn unol â Phenderfyniad (1), y Strategaeth a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i'w hystyried, fel rhan o'r broses ymgynghori.

(3) BOD, yn amodol ar Benderfyniadau (1) a (2), y Strategaeth, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a barn y Pwyllgor Craffu ac ymgynghoriad cyhoeddus ehangach yn cael eu hystyried gan y Cabinet cyn cytuno'r Strategaeth derfynol.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Nodi a chymeradwyo cyfeiriad strategol arfaethedig strategaeth newydd Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid 2021 - 2024 sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Corfforaethol, Cynllun Lles y Cyngor a Strategaeth Cyfoethogi Cymunedau ac Amgylcheddol Cartrefi'r Fro.

(2) I sicrhau craffu priodol ar y dogfennau pwysig hyn, fel rhan o ymgynghoriad ehangach.

(3) I ganiatáu i'r Cabinet wneud penderfyniad seiliedig ar wybodaeth ar y Strategaeth derfynol, yn dilyn ymgynghoriad pellach.

C774 DIWEDDARIAD CYNNYDD YNGHYLCH DATRYSIAD HYBRID AR GYFER CYFARFODYDD Y CYNGOR A CHYFRANOGIAD AC YMGYSYLLTIAD Y CYHOEDD (WCRC) (CRAFFU – I GYD)

Ceisiodd yr adroddiad roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am y cynnydd o ran:-

- darparu a hyfforddi ateb hybrid i Aelodau ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor gan roi sylw i ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol Interim Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfarfodydd Aml-leoliad a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021;
- agweddau amrywiol yn ymwneud â darpariaethau eraill fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gan gynnwys y gwaith sy'n cael ei wneud gan Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan mewn perthynas â Chyfansoddiad Enghreifftiol a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn

No.

fewnol gan Swyddogion y Cyngor yn ymwneud â Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd; a'r

- gwaith a wnaed hyd yma o ran ymgysylltu â'r cyhoedd yn y broses ddemocrataidd.

Nododd yr Arweinydd mai perchennog yr adroddiad oedd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio nad oedd wedi'i nodi'n glir yn yr adroddiad.

Gobeithiai'r Cynghorydd McCaffer y byddai'r ddeddfwriaeth yn annog mwy o ddiddordeb mewn bod yn Gynghorydd a sefyll am etholiad gan y gallai cyfarfodydd hybrid ddileu rhai rhwystrau a allai fod wedi bodoli i rai pobl allu mynychu cyfarfodydd perthnasol y Cyngor. Cytunodd yr Arweinydd fod hyblygrwydd ychwanegol o ran sut y gallai pobl fynychu cyfarfodydd yn bwysig ac yn ganlyniad cadarnhaol o'r pandemig.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad, gan roi sylw penodol i baragraffau 2.12 i 2.16 o'r adroddiad, yn cael ei nodi.

(2) BOD Gweithdrefn Presenoldeb o Bell y Cyngor mewn Cyfarfodydd i'w adolygu yng ngoleuni canllawiau interim statudol Llywodraeth Cymru ar gyfarfodydd aml-leoliad (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021) a'i adrodd yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried cyn ei gweithredu ym mis Mai 2022.

(3) BOD, pan ddeuai canllawiau penodol pellach yn rhoi sylw i fesurau ymbellhau cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a gweithredu Adran 46 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ym mis Mai 2022, ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ba gyfarfodydd y Cyngor a fyddai'n cael eu darlledu, a'u cynnal yn gorfforol, o bell neu'r ddau ac adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar y mater.

(4) BOD, yng ngoleuni cynigion y Cyngor yn ymwneud â datganiad Prosiect Sero ac Argyfwng Hinsawdd, pob agenda ac adroddiad yn cael ei ddarparu drwy ddulliau electronig yn unig o 1 Ionawr, 2022 oni bai bod ceisiadau penodol yn cael eu gwneud i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am gopiâu caled.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad.

(2) O ystyried canllawiau interim Llywodraeth Cymru ar gyfarfodydd aml-leoliad (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021).

No.

(3) O ystyried Adran 46 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'w gweithredu ym mis Mai 2022, a mesurau ymbellhau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

(4) O ystyried cynigion y Cyngor mewn perthynas â Phrosiect Sero a'i ddatganiad Argyfwng Hinsawdd.

C775 AIL-LUNIO'R DIWEDDARIAD GWASANAETH CELFYDDYDAU AC ADOLYGIAD ORIEL GANOLOG Y CELFYDDYDAU (HCD) (CRAFFU - DYSGU A DIWYLLIANT) –

Darparodd yr adroddiad adroddiad diweddar ac opsiynau ynghylch y Gwasanaeth Celf a'r defnydd posibl o'r Oriol Gelf Ganolog yn y dyfodol.

Roedd adolygiad o'r Oriol Gelf Ganolog wedi ei gynnal. Roedd adolygiad yr Oriol wedi nodi chwe opsiwn posibl, gydag un opsiwn wedi ei ffafrio o ran defnyddio'r gofod yn y dyfodol, gyda'r nod o sicrhau bod y gofod yn gynaliadwy ac yn niwtral o ran cost i'r Cyngor:

- Opsiwn 1. Cadw'r sefyllfa fel ag y mae.
- Opsiwn 2. Ailwampio ffioedd a chyflwyno digwyddiadau a gweithdai celf â thâl.
- Opsiwn 3 (Opsiwn a ffefrir). Sefydlu bar caffi a moderneiddio'r Oriol Gelf Ganolog.
- Opsiwn 4. Trosglwyddo'r gwaith o redeg yr Oriol i grŵp, Ymddiriedolaeth neu sefydliad celfyddydol trydydd parti.
- Opsiwn 5. Cau'r Oriol a dod o hyd i ddefnydd arall ar gyfer y gofod.
- Opsiwn 6. Cau'r Oriol a sicrhau tenant masnachol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y byd wedi newid yn sylweddol ers i'r ymgynghoriad ddechrau a bod barn am y celfyddydau a'r gwerth sydd iddynt ym mywydau pobl hefyd wedi newid. Roedd y Pafiliwn wedi gwneud gwahaniaeth enfawr a buddiol i drigolion Penarth ac ymwelwyr â'r ardal.

Cafwyd gohebiaeth a sylwadau gan y Cynghorydd Charles, a oedd yn cytuno'n fras â'r argymhellion, a'r Cynghorydd Dr Johnson a oedd wedi codi rhai pwyntiau ynghylch Opsiwn 3 mewn perthynas â'r effaith ar yr ardal leol. Dywedodd y Cynghorydd McCaffer ei bod yn edrych ymlaen at gael trafodaeth yn y flwyddyn newydd ar y materion a godwyd yn y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant. Cafwyd sylwadau hefyd gan Gadeirydd Cyfeillion yr Oriol Gelf Ganolog a oedd hefyd yn cefnogi'r adroddiad a'r argymhellion.

Cytunodd yr Arweinydd y byddai'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn cael eu hystyried yn y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant. Anogodd y Cynghorydd McCaffer unrhyw un sydd â diddordeb i fod yn rhan o'r drafodaeth.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd ei bod wedi bod yn ffodus i fynd i ddiwrnod agored y Pafiliwn a gweld yr ardal yn brysur gyda phobl â diddordeb yn y sinema, dysgu oedolion yn y gymuned, y llyfrgell, priodasau a chyngherddau. Roedd her

No.

wirioneddol i gynnal, hyrwyddo a rhedeg yn gynaliadwy unrhyw ddarpariaeth a oedd y tu allan i gylch gwaith statudol y Cyngor, ond roedd hefyd newid sylweddol posibl yn adferiad economaidd Heol Holltwn a'r cyffiniau. Edrychodd y Cynghorydd Burnett ymlaen hefyd at y drafodaeth arfaethedig yn y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

(1) BOD yr adroddiad, wrth ddarparu diweddariad ac opsiynau ar ail-lunio'r Gwasanaeth Celfyddydau a'r defnydd o'r Oriol Gelf Ganolog yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei nodi.

(2) BOD yr opsiynau a amlinellir yn yr adroddiad fel sail ar gyfer cyfeirio at y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant i'w hystyried yn cael eu cymeradwyo.

(3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio, yr Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant, a'r Rheolwr Gyfarwyddwr, i:

- Barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartïon â diddordeb mewn perthynas â datblygu'r opsiwn a ffefrir;
- Adrodd yn ôl i'r Cabinet am unrhyw newidiadau perthnasol i'r cynigion yn deillio o ymateb y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

(4) BOD y Cabinet yn derbyn adroddiad yn manylu ar y cynnydd a wnaed ar ôl blwyddyn gyntaf ei weithredu.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am ddatblygu cynigion ac opsiynau ar gyfer y Gwasanaeth Celfyddydau.

(2) Caniatáu i'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ei ystyried.

(3) Caniatáu ymgysylltu parhaus wrth i'r gwaith ar yr opsiwn a ffefrir fynd rhagddo.

(4) I alluogi'r Cabinet i ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud.

C776 TEITHIO GWEITHREDOL – CANLYNIADAU'R YMGYNGHORIAD AR GYFER DIWEDDARIAD MAP Y RHWYDWAITH TEITHIO GWEITHREDOL 2021 (WCT) (CRAFFU - AMGYLCHEDD A ADFYWIO) –

Rhoddodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ddyletswyddau ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i fapio cyfleoedd ar gyfer Teithio Llesol, cynllunio ar eu cyfer, eu

No.

gwella a'u hyrwyddo. Cymeradwywyd Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLI) gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2017 a rhaid cyflwyno MRhTLlau wedi'u diweddarau i Lywodraeth Cymru bob tair blynedd.

Roedd Sustrans Cymru Cyf wedi cynorthwyo swyddogion y Cyngor i ymgymryd â'r gwaith o archwilio a chynhyrchu llwybrau Teithio Llesol a chynhyrchu llwybrau'r dyfodol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar y MRhTLI rhwng 2 Awst a 24 Hydref, 2021. Derbyniwyd 143 o ymatebion.

Roedd tri gwelliant i'r MRhTLI oedd wedi eu gweld yn flaenorol gan y Cabinet yn cael eu hargymell. Ychwanegu llwybr i draeth Llanilltud Fawr, adlinio llwybr Sain Tathan i'r Rhws ac ychwanegu'r cyfleuster defnydd a rennir ym Mharc y Pant, Penarth.

Ceisiodd yr adroddiad gymeradwyaeth i gyflwyno'r MRhTLlau terfynol i Lywodraeth Cymru.

Roedd hyn yn fater i'r Weithrediaeth benderfynu arno.

Ar ôl i'r Cabinet ystyried yr adroddiad a phob mater a phob goblygiad ynddo,

PENDERFYNWYD –

- (1) BOD yr ymatebion i'r ymgynghoriad fel y'u hatodir yn Atodiadau A a B i'r adroddiad yn cael eu nodi.
- (2) BOD Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (MRhTLlau) Bro Morgannwg fel y'u hatodir yn Atodiad E yn cael eu cymeradwyo.
- (3) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio i'w ystyried ym mis Ionawr 2022.
- (4) BOD unrhyw sylwadau a wnaed gan Bwyllgor Craffu'r Amgylchedd ac Adfywio yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet i'w hystyried ddiwedd mis Ionawr 2022 cyn cyflwyno Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol terfynol Bro Morgannwg i Lywodraeth Cymru.

Rhesymau dros benderfyniadau

- (1) I alluogi'r Cabinet i ystyried yr ymatebion a gafwyd fel rhan o'r broses ymgynghori.
- (2) I alluogi'r Cabinet i gymeradwyo'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol terfynol.
- (3) I sicrhau bod barn y Pwyllgor Craffu perthnasol yn cael ei hystyried.
- (4) I alluogi'r Cyngor i gyflwyno ei Fap Rhwydwaith Teithio Llesol terfynol i Lywodraeth Cymru.